Pan fydd pobl yn ôl yn yr ystafelloedd fel yr arfer, ailedrychir ar yr arolwg. Nodwyd na fydd yr oedi hwn yn cynyddu risg nac amlygiad i risg.

sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw gyfyngiadau. Bydd yr Asesiad Risg yn cael ei adolygu ymhellach wrth i gyfyngiadau Rhybudd Lefel 4 gael eu llacio.

b) Data Covid-19

Darparwyd crynodeb o'r data Covid-19 sydd ar gael i'r Brifysgol:

i. Agorodd y Ganolfan Profi Asymptomatig ar y safle ar 30 Tachwedd 2020, i ddechrau i alluogi i fyfyrwyr ddychwelyd adref yn ddiogel ar gyfer y Nadolig. Cynhaliwyd 553 o brofion ar y diwrnod cyntaf. Hyd yma mae dros 8000 o brofion asymptomatig wedi'u cynnal, gyda 17 yn profi'n bositif am Covid-19.

ii. Roedd y prawf positif Covid-19 diwethaf mewn cyfleuster profi asymptomatig ar 25 Ionawr 2021.

iii. Disgwylir y bydd myfyrwyr yn cael eu hannog yn gryf i gael eu profi cyn dychwelyd adref ar gyfer gwyliau'r Pasg. Ar hyn o bryd mae cyllid ar gael i wneud Profion Asymptomatig tan 1 Ebrill 2021.

iv. Mae gan y Brifysgol hefyd gyfleuster profi PCR, wedi'i leoli yng Nghanolfan Brailsford, ar gyfer myfyrwyr â symptomau Covid-19.

v. Hyd yma mae cyfanswm o 372 o brofion positif am Covid-19 wedi'u hysbysu i'r Brifysgol trwy Borth Covid-19 y Brifysgol, neu drwy dimau Profi, Olrhain a Diogelu lleol.

vi. Mae myfyrwyr sy'n hunanynysu mewn Neuaddau wedi cael cefnogaeth staff y

v. Dim ond mân ddigwyddiadau amgylcheddol a gafwyd yn ymwneud â thipio anghyfreithlon.